Datganiad Ystadegol Cyntaf

ystadegau ar gyfer cymru / statistics for wales

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

# Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2018/19 (dros dro) - Diwygiedig

**8 Hydref 2019**
**SFR 93/2019(D)**

## Diwygiadau i ddangosyddion Cyfnod Allweddol 4 2018/19

Cyhoeddwyd ystadegau ar gyfer 2018/19 am y tro cyntaf ar 3 Hydref 2019. Yn dilyn eu cyhoeddi, nodwyd mater lle'r oedd rhai o'r ffigurau'n seiliedig ar nifer y disgyblion 15 oed yn hytrach na'r rheini ym mlwyddyn 11. Nid yw hyn yn effeithio ar ffigurau disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim na disgyblion 17 oed. Gweler y Nodiadau (tudalen 10) am ragor o wybodaeth.

## Newidiadau i'r broses o gynhyrchu'r ystadegau hyn

### Mesurau perfformiad ar gyfer Blwyddyn 11

Cyflwynwyd mesurau perfformiad newydd ar gyfer 2018/19. Mae'r mesurau hyn bellach yn seiliedig ar sgoriau pwyntiau ac yn trosi pob gradd a gyflawnir i sgôr pwyntiau (gweler Diffiniadau). Mae'r mesurau fel a ganlyn:

- Sgôr Capio 9 (fersiwn y mesur interim, gweler isod)
- Mesur Llythrennedd: y cymhwyster gorau y mae disgybl wedi'i gyflawni mewn TGAU Iaith neu Lythrennedd (Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg)
- Mesur Rhifedd: y cymhwyster gorau mewn TGAU Mathemateg neu Fathemateg - Rhifedd.
- Mesur Gwyddoniaeth: yn ystyried y cymhwyster unigol gorau mewn TGAU Gwyddoniaeth (lle y bydd disgybl wedi sefyll TGAU dwbl, caiff y radd uchaf ei chyfrif).
- Tystysgrif Her Sgiliau: rhan o Fagloriaeth Cymru y gellir ei sefyll ar Lefel Sylfaen neu ar Lefel Genedlaethol

Rydym yn datblygu mesurau perfformiad newydd a gaiff eu cyflwyno ar ôl cytuno ar drefniadau gwerthuso a gwella newydd – mae'r rhain yn gysylltiedig â'r newid yn y cwricwlwm yn 2020. I gael rhagor o wybodaeth am gyflwyno'r mesurau newydd hyn, gweler y canllawiau Trefniadau Perfformiad Ysgol Interim Cyfnod Allweddol 4: Mesurau a Dadansoddiadau.

### Newidiadau o ran cofrestriadau lluosog

Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ym mhob pwnc ar gyfer mesurau perfformiad. O 2018/19, defnyddir y cofrestriad cyntaf ym mhob pwnc yn lle hynny, ni waeth pa un a fydd y disgybl wedi llwyddo i ennill gradd uwch drwy ailsefyll ai peidio. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anos cymharu'r data â data blynyddoedd blaenorol. Gweler tudalen 8 sy'n egluro effaith y newid hwn.

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r Datganiad Ystadegol hwn yn darparu dadansoddiad o'r arholiadau allanol a safwyd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 (CA4; 15 oed) neu ddisgyblion yn y chweched dosbarth (CA5; 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) mewn ysgolion yng Nghymru yn 2018/19 ac mewn blynyddoedd blaenorol. I gael rhagor o ddata a dadansoddiadau manwl, gweler y tablau atodol.

## Yn y datganiad


**Disgyblion Bl11 (CA4)**

Prif ddangosyddion 2

Prydau Ysgol am Ddim 4

**Disgyblion 17 oed (CA5)**

Prif ddangosyddion 6

**Atodiad**

Diffiniadau 7

Nodiadau 9



Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 5060 ~ ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

### Sgôr Capio 9 (fersiwn y mesur interim)

Mae'r mesur Capio 9 wedi newid ers y llynedd drwy leihau nifer y gofynion pwnc-benodol. Mae'r mesur yn cynnwys y naw TGAU gorau neu swm cyfatebol o gymwysterau o hyd, ond bellach dim ond tri o'r naw slot sy'n ymwneud â phynciau craidd penodol, i lawr o bump mewn blynyddoedd blaenorol. Y pynciau penodol hyn yw TGAU Iaith neu Lenyddiaeth Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg, Mathemateg neu Rifedd a Gwyddoniaeth.

Mae'r Sgôr Capio 9 yn un o Brif Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Oherwydd y newidiadau hyn i'r sgôr pwyntiau Capio 9 (fersiwn y mesur interim), dylid osgoi unrhyw ymdrechion i gymharu â sgoriau Capio 9 blaenorol. Ceir dadansoddiad o'r sgôr Capio 9 hon (fersiwn y mesur interim) ac esboniad o'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur hwn yn y canllawiau hyn.

Nid yw prif fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 5 wedi newid ers y llynedd.

## 1. Canlyniadau allweddol ar gyfer 2018/19

### Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

- Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Llythrennedd yw 39.0, y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Rhifedd yw 37.1 a'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Gwyddoniaeth yw 36.8.
- Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yw 36.4.
- Y sgôr Capio 9 cyfartalog (fersiwn y mesur interim) oedd 353.3.
- Roedd perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn ym mhob un o'r pum dangosydd hyn, ac roedd sgôr gyfartalog disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn is na'r rheini nad oeddent yn gymwys.
- Cyflawnodd 53.8 y cant o ddisgyblion 5 TGAU (neu gymhwyster cyfwerth) gradd A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (trothwy cynwysedig Lefel 2).

### Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (Cyfnod Allweddol 5)

Cofrestrodd 9,130 (89.7 y cant) o ddisgyblion 17 oed nifer o gymwysterau a oedd yn cyfateb i ddau gymhwyster Safon Uwch. O'u plith:

- cyflawnodd 97.8 y cant 2 radd A*-E ar lefel Safon Uwch (trothwy Lefel 3).
- cyflawnodd 57.6 y cant 3 gradd A*-C ar lefel Safon Uwch.
- cyflawnodd 13.1 y cant 3 gradd A*-A ar lefel Safon Uwch.

## 2. Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

### Cymariaethau â blynyddoedd blaenorol

Cyflwynwyd mesurau perfformiad newydd ar gyfer 2018/19. Nodir rhai o'r dangosyddion hyn o 2016/17 ymlaen, ond ni ddylid cymharu'r dangosyddion hyn â dangosyddion tebyg o gyhoeddiadau blaenorol.

Gwnaed newidiadau i fesurau perfformiad a chymwysterau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a all effeithio ymhellach ar y gallu i'w cymharu. Caiff y sgôr Capio 9 cyfartalog (fersiwn y mesur interim) ei diffinio'n wahanol i'r sgôr pwyntiau Capio 9 o flynyddoedd blaenorol ac nid oes modd eu

cymharu. Cyflwynwyd Tystysgrif Her Sgiliau newydd yn 2016/17, felly dim ond yn ôl at y dyddiad hwn y dylid cymharu'r Dystysgrif Her Sgiliau. Yn yr un modd, cyflwynwyd cyfres newydd o gymwysterau Gwyddoniaeth a chynhaliwyd yr arholiadau cyntaf ar eu cyfer yn 2017/18, felly dylid osgoi cymariaethau â blynyddoedd cynharach. Gellir cymharu'r mesurau Llythrennedd a Rhifedd dros gyfnod hirach.

O 2018/19, dim ond canlyniadau'r dyfarniad cyntaf ar gyfer cymhwyster a gwblheir (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) a fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad. Mae'r newid hwn yn annog ysgolion i gofrestru dysgwyr pan fyddant yn hyderus eu bod yn barod i ennill y canlyniad gorau posibl ar eu cyfer. Nid yw'n atal dysgwyr rhag ailsefyll os bydd ysgol neu ddysgwr yn awyddus i wella ei chanlyniadau neu ei ganlyniadau, ond ni fyddai'r ail ganlyniad hwn yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad CA4, hyd yn oed os bydd y canlyniad yn uwch.

Mae'r tabl isod yn dangos effaith y newid hwn ar y mesurau perfformiad, ac eithrio'r sgôr Capio 9 a ystyrir yn y cyhoeddiad terfynol.

| **Mesur** | **Sgôr pwyntiau â'r cofrestriad cyntaf** | **Sgôr pwyntiau â'r cofrestriad gorau** | **Gwahaniaeth (sgôr pwyntiau)** |
|---|---:|---:|---:|
| Llythrennedd | 39.0 | 39.1 | -0.1 |
| Rhifedd | 37.1 | 37.5 | -0.4 |
| Gwyddoniaeth | 36.8 | 36.8 | 0.0 |
| Tystysgrif Her Sgiliau | 36.4 | 36.4 | 0.0 |

Nid yw'n bosibl mesur effaith y newidiadau mewn polisi i ddewisiadau disgyblion ac ysgolion o amgylch opsiynau cwricwlwm a choftrestriadau. Felly, dylid osgoi gwneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

### Sgôr Capio 9 (fersiwn y mesur interim)

Cyflwynwyd y sgôr pwyntiau Capio 9 gwreiddiol yn 2016/17 ac mae'n canolbwyntio ar naw chanlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o blith y cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc-benodol. Rhaid i'r sgôr Capio 9 (fersiwn y mesur interim) a gyflwynwyd yn 2018/19 gynnwys TGAU Iaith neu Lenyddiaeth Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg, Mathemateg neu Rifedd a Gwyddoniaeth.




Fel canllaw, mae gradd A* ar lefel TGAU yn werth 58 o bwyntiau, mae gradd A yn werth 52 o bwyntiau, mae gradd C yn werth 40 o bwyntiau ac yn y blaen. Mae'r Sgôr Capio 9 cyfartalog (Fersiwn y Mesur Interim) eleni ychydig yn is na'r hyn sy'n cyfateb i 9 gradd C (360 o bwyntiau). Gweler y Diffiniadau am ddadansoddiad llawn o'r pwyntiau fesul gradd.

## Mesur y dystysgrif her sgiliau

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn rhan allweddol o Fagloriaeth Cymru, ac mae ar gael i ddysgwyr ar Lefel Sylfaen 1 neu Lefel Genedlaethol 2. Dyfernir gradd A-C ar gyfer Lefel Genedlaethol 2 a chaiff ei throsi i'r un sgoriau pwyntiau â'r mesurau pwnc, gydag A yn cyfateb i 52 o bwyntiau a C yn cyfateb i 40 o bwyntiau. Dyfernir gradd Llwyddiant* a Llwyddiant ar gyfer Lefel Sylfaen 1, a chaiff ei throsi i sgôr pwyntiau o 34 a 22. Felly dylid gochel wrth gymharu'r mesur hwn â'r tri mesur perfformiad pwnc.

**36.4**
Sgôr Pwyntiau'r Dystysgrif Her Sgiliau

**39.0**
Sgôr Pwyntiau Llythrennedd


**37.1**
Sgôr Pwyntiau Rhifedd

**36.8**
Sgôr Pwyntiau Gwyddoniaeth

## Mesurau perfformiad pwnc (sgoriau pwyntiau cyfartalog)

Cyflawnodd disgyblion sgôr pwyntiau uwch mewn Llythrennedd a Rhifedd nag mewn Gwyddoniaeth..


Mae'r prif fesurau yn dangos sgôr gyfartalog pob disgybl a gynhwysir ledled Cymru. Ar gyfer y mesurau Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth, y sgôr pwyntiau cyfartalog uchaf posibl yw 58 o bwyntiau pe byddai pob disgybl yn cyflawni gradd A*. Y sgôr pwyntiau cyfartalog isaf yw 16 o bwyntiau pe byddai pob disgybl yn cyflawni gradd G. Byddai'r tri mesur yn cyfateb yn fras i ychydig islaw gradd C (40 o bwyntiau). Noder mai sgoriau cyfartalog ar gyfer pob disgybl ledled Cymru yw'r ffigurau hyn, a bydd rhai disgyblion yn perfformio uwchlaw'r lefel hon a bydd rhai yn perfformio islaw'r lefel hon.





## Prydau Ysgol am Ddim

Mae disgyblion yn [gymwys i gael prydau ysgol am ddim] os bydd eu teuluoedd yn cael rhai budd-daliadau/taliadau cymorth penodol neu'n cael credyd cynhwysol. Dengys Siart 5 faint y bwlch rhwng y rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys.

**Siart 1a: Sgoriau Pwyntiau Pwnc-benodol Cyfartalog yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim, 2018/19 Yn Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a Ddim yn Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim**








**Siart 1b: Sgôr Capio 9 (Fersiwn y Mesur Interim) yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim, 2018/19 Yn Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a Ddim yn Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim**

Mae disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni canlyniadau cyson uwch na'u cyd-ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd y bwlch rhwng y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion nad ydynt yn gymwys ar ei fwyaf mewn Gwyddoniaeth ac ar ei leiaf mewn Llythrennedd.

I gael gwybodaeth fanylach am fesurau perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gweler y tablau atodol.

**Siart 2: Sgoriau pwyntiau pwnc-benodol**





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Sgôr Pwyntiau Llythrennedd | 39.1 | 39.4 | 39.0 |
| Sgôr Pwyntiau Rhifedd | 37.9 | 38.3 | 37.1 |
| Sgôr Pwyntiau Gwyddoniaeth | 39.0 | 36.8 | 36.8 |
| Sgôr Pwyntiau'r Dystysgrif Her Sgiliau | 28.6 | 36.5 | 36.4 |

Roedd perfformiad disgyblion yn waeth yn y mesurau Gwyddoniaeth, Llythrennedd a Rhifedd ychydig yn uwch mewn Llythrennedd a Rhifedd, yn gostwng 0.1, 0.4 a 1.2 pwynt yn y drefn honno. Cynyddodd mesur y Dystysgrif Her Sgiliau 7.9 pwynt rhwng 2016/17 a 2017/18 ond gostyngodd ychydig yn 2018/19 i 36.4 pwynt.


## Dangosyddion eraill

Mae gwneud cymariaethau â pherfformiad cyn 2016/17 yn anodd oherwydd newidiadau sylweddol yn y modd y cyfrifir y dangosyddion. Gweler y diffiniadau (tudalen 7) am ragor o wybodaeth.


**Siart 3: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni gwahanol drothwyon**



| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 91.8 | 93.2 | 94.0 | 94.4 | 95.3 | 94.4 | 93.7 | 92.7 |
| Lefel 2 cynhwysol | 51.1 | 52.7 | 55.4 | 57.9 | 60.3 | 55.8 | 56.6 | 53.8 |
| 5 A*-A TGAU | | | | | | 16.8 | 18.0 | 18.1 |



Cyflawnodd **59.0%** o ferched 5 TGAU gradd A*-C (gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg) o gymharu â **48.9%** o fechgyn




Gostyngodd canran y disgyblion a gyflawnodd trothwy cynwysedig lefel 2 (5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg, gweler y Nodiadau am ragor o fanylion) tri pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 53.8 y cant. Roedd perfformiad merched yn parhau'n well na pherfformiad bechgyn yn CA4; roedd bwlch o 10.1 pwynt canran rhwng y rhywiau ar gyfer trothwy cynwysedig lefel 2, a ehangodd o 9.5 pwynt canran yn 2017/18.

## 3. Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (Cyfnod Allweddol 5)

### Prif ddangosyddion

**Siart 4: Canran y disgyblion 17 oed sy'n cyflawni gwahanol drothwyon gradd Safon Uwch**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 3 | 98.0 | 97.1 | 97.6 | 97.8 |
| 3 A*-C | 38.3 | 54.7 | 57.9 | 57.6 |
| 3 A*-A | 6.7 | 10.5 | 13.4 | 13.1 |

Mae canran y disgyblion mewn ysgolion sy'n cyflawni 3 gradd A*-C ar lefel Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) wedi gostwng 0.4% o gymharu â 2017/18. Yn yr un modd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni 3 gradd A*-A wedi gostwng 0.3% ers 2017/18.

Roedd perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn yn CA5; fodd bynnag, mae'r bwlch hwn yn llai ar gyfer cyflawnwyr uchel (y rheini sy'n cyflawni 3 gradd A*-A).

O blith y disgyblion a safodd dau gymhwyster Safon Uwch neu fwy, mae'r ganran a gyflawnodd 2 radd A*-E (trothwy Lefel 3) yn 2017/18 wedi cynyddu 0.2 pwynt canran o gymharu â'r llynedd.

Nid yw'r ffigurau yn cynnwys dysgwyr sy'n astudio cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol mewn Sefydliadau Addysg Bellach.

## 4. Diffiniadau

### Newidiadau o ran cofrestriadau lluosog

O 2018/19, lle y caiff disgybl ei gofrestru ar gyfer cymhwyster fwy nag unwaith, dim ond canlyniad y cofrestriad cyntaf (yn gronolegol) a gaiff ei gyfrif yn ein dangosyddion perfformiad ar gyfer CA4, ni waeth p'un a fydd cofrestriad diweddarach yn arwain at radd uwch ai peidio. Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ym mhob pwnc ar gyfer mesurau perfformiad.

Nid yw'r newid hwn yn berthnasol i CA5.

### Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

### Sgôr Capio 9 (fersiwn y mesur interim)

Mae'r sgôr pwyntiau hon yn canolbwyntio ar naw chanlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o blith y cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc-benodol. Ar gyfer 2018/19, mae hyn yn cynnwys un o blith Cymraeg neu Saesneg (Iaith neu Lenyddiaeth), Mathemateg neu

Mathemateg Rhifedd ac un TGAU Gwyddoniaeth. Mae dadansoddiad o'r sgôr Capio 9 hon ac esboniad o'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur hwn ar gael.

### Cyfateb Sgoriau Pwyntiau â Graddau

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r sgôr pwyntiau ar gyfer gradd a gyflawnir mewn TGAU cyfrol 1, a ddefnyddir i gyfrifo'r Sgoriau Pwyntiau Pwnc-benodol a'r sgôr pwyntiau Capio 9.

| Gradd | Sgôr Pwyntiau | Gradd | Sgôr Pwyntiau |
|---|---|---|---|
| A* | 58 | D | 34 |
| A | 52 | E | 28 |
| B | 46 | F | 22 |
| C | 40 | G | 16 |

### Mesur Llythrennedd

Y radd TGAU unigol orau o blith Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Gymraeg, Cymraeg iaith gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg.

### Mesur Rhifedd

Y radd TGAU unigol orau o blith Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd.

### Mesur Gwyddoniaeth

Y radd TGAU unigol orau o blith Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) a Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl). Lle gwneir dyfarniad dwbl, dyfernir dwy radd TGAU i bob disgybl. Ar gyfer y mesur hwn, byddwn yn defnyddio'r radd unigol orau o blith y ddwy.

### Lefel 1

5 TGAU (neu gymhwyster cyfatebol) gradd A*-G.

### Lefel 2 cynwysedig

5 TGAU (neu gymhwyster cyfatebol) gradd A*-C, gan gynnwys Saesneg Iaith, Saesneg Llenyddiaeth, Gymraeg Iaith Gyntaf, Cymraeg Llenyddiaeth a Mathemateg neu Rifedd. Ychwanegwyd y cymwysterau llenyddiaeth yn ôl-weithredol at y mesur ar gyfer 2016/17 a 2017/18.

### 5 A*-A

5 TGAU (neu gymhwyster cyfatebol) gradd A*-A.

## Disgyblion 17 oed (Cyfnod Allweddol 5)

### Lefel 3

2 Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) gradd A*-E fel canran o'r rheini sy'n cofrestru ar gyfer 2 Safon Uwch neu fwy.

### 3 A*-C

3 gradd A*-C ar lefel Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) ar ôl cofrestru ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol).

### 3 A*-A

3 gradd A*-A ar lefel Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) ar ôl cofrestru ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol).

## Newidiadau a chymariaethau

Drwy gyflwyno mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, rydym yn symud oddi wrth y mesurau seiliedig ar drothwyon. Ni fydd y wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol at ddibenion hunanwerthuso bellach yn cynnwys dadansoddiadau o ganran y dysgwyr sy'n cyflawni'r canlynol: pynciau unigol, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen neu Genedlaethol, neu fesurau perfformiad trothwy (sef y Dangosydd Pwnc Craidd neu drothwy Lefel 2). Yr eithriadau i hyn yw mesurau trothwy Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1, gan fod y gofyniad ar ysgolion i osod targedau ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn erbyn y mesurau hyn wedi aros mewn deddfwriaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Er mwyn helpu ysgolion i fonitro cynnydd yn erbyn targedau o'r fath, caiff data cyrhaeddiad Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 eu darparu o hyd, yn ogystal â'r data ar y mesurau newydd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fod yn destun gweithdrefnau craffu anghymesur ar sail nifer fach o fesurau perfformiad, ac ar y sail honno'n unig. Anogir awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys mesurau perfformiad, data eraill a gwybodaeth gyd-destunol, er mwyn helpu ysgolion.

O 2017/18, yn dilyn argymhellion gan adolygiadau annibynnol, nid yw cymwysterau Gwyddoniaeth galwedigaethol bellach yn cyfrif tuag at elfen Gwyddoniaeth graidd y mesurau perfformiad. Mae hyn yn berthnasol i'r sgôr pwyntiau Capio 9 (fersiwn y mesur interim) a'r mesur gwyddoniaeth.

O 2016/17, ceir cap o 40% ar y cyfraniad y gall cymwysterau galwedigaethol ei wneud tuag at fesurau L1 a L2 cynhwysol. Nid yw'r cap hwn yn berthnasol i unrhyw rai o'r 5 mesur perfformiad newydd. Mae hyn, ynghyd â'r penderfyniad i ddileu cymwysterau llenyddiaeth o'r dangosyddion Saesneg a Chymraeg Iaith Gyntaf, yn golygu na ddylid cymharu ffigurau rhwng 2016/17 neu'n ddiweddarach â ffigurau o 2015/16 neu'n gynharach.

O 2015/16, mae carfan Cyfnod Allweddol 4 yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae uchafswm cywerthedd o ddau TGAU hefyd yn gymwys i unrhyw gymhwyster unigol nad yw'n gymhwyster TGAU. Mae hyn yn berthnasol i bob mesur perfformiad yn y datganiad hwn.

## 5. Nodiadau

## Diwygiadau i brif ddangosyddion Cyfnod Allweddol 4 2018/19

Defnyddiodd rhai o ganlyniadau dros dro Cyfnod Allweddol 4 a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2019 nifer y disgyblion 15 oed, sydd wedi'i gywiro i nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn y cyhoeddiad diwygiedig hwn.

Yn dilyn y newid hwn, cynyddodd mwyafrif y dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 0.1 neu 0.2 pwynt canran. Cynyddodd y sgôr 9 pwynt wedi'i gapio (fersiwn mesur dros dro) 1.0 pwynt. Gweler y tablau atodol i gael manylion llawn y newidiadau.

Ni wnaeth y diwygiad hwn effeithio ar y ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer y dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 yn ôl hawl Prydau Ysgol Rydd na'r prif ddangosyddion ar gyfer disgyblion 17 oed.

**Statws Ystadegau Gwladol**

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 a chan ddangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegyn swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol i ystadegau ar ôl asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os bydd gennym bryderon ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol yn 2019, yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Cynhaliwyd yr asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2019.

Ers yr adolygiad diwethaf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Cyflwyno crynodeb o'r mesurau allweddol ar ddechrau'r cyhoeddiad, gan gynnwys esboniad manwl o'r mesurau allweddol newydd ac wedi eu gosod yn eu cyd-destun o ran graddau cyfatebol.
- A Cynhwyswyd dadansoddiad o'r mesurau newydd yn ôl rhywedd ac yn ôl cymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim yn y datganiad a'r tablau ategol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys un o'r dangosyddion cenedlaethol, sef y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl, gan gynnwys y bwlch rhwng y rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, mae'n rhaid cyfeirio atynt mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a baratoir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen a'r tablau atodol ar gael yn:

https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2018-i-awst-2019-dros-dro

Ceir rhagor o wybodaeth dechnegol yn y ddogfen nodiadau sydd hefyd ar gael ar y dudalen we canlyniadau arholiadau.

## Diweddariad nesaf

Rhagfyr 2019

## Rydym eisiau eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bostio ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.